# Ymunwch â'r ymgyrch i chwilio am y Pryfyn Cerrig

# Isogenus nubecula




## Pam ydyn ni'n cynnal yr arolwg hwn?

Y gred oedd bod y pryfyn cerrig Isogenus nubecula yn ddiflanedig ym Mhrydain hyd nes y daethpwyd o hyd i boblogaeth fechan ar Afon Dyfrdwy yng Nghymru yn 2017.

Rydyn ni'n awyddus i ddeall a yw'r pryfyn hwn i'w gael mewn afonydd eraill, yn enwedig yng Nghymru ac o'i chwmpas lle mae wedi'i gofnodi ar hyn o bryd.




Oherwydd na ddaw i'r golwg yn ystod rhan fwyaf ei gylch bywyd, gall fod yn anodd cofnodi pryf y cerrig. Maen nhw'n treulio llawer o'u bywyd cynnar o dan y dŵr, yn bwrw eu croen fel larfa. Fodd bynnag, fel pryfed llawn dwf maen nhw'n gadael y dŵr ac yn dueddol o hoffi arwynebau heulog a llystyfiant - dyna lle gallwch chi fod o gymorth!

## Beth allwch chi ei wneud i helpu?

O fis Ebrill i fis Mehefin, rydyn ni'n gofyn i'r cyhoedd ein helpu ni i ddod o hyd i bryfed cerrig, tynnu lluniau ohonyn nhw a rhoi gwybod am unrhyw bryfed cerrig a welir ar hyd afonydd Cymru.

Os ydych chi'n byw y tu allan i'r ardal hon ond yn meddwl eich bod wedi dod o hyd i bryf cerrig Isogenus nubecula, cofnodwch hyn trwy ein ffurflen ar y we hefyd.

Sganiwch Fi

Gallwch wneud hyn trwy sganio'r cod QR neu fynd i:

**bit.ly/SearchForSYSCymru**

Natur am Byth! Adfer rhywogaethau dan fygythiad yng Nghymru – Saving Wales' threatened species | buglife Cymru | Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales | Esmée Fairbairn Foundation | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth – Made possible with Heritage Fund | Llywodraeth Cymru Welsh Government | WCVA CGGC | Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

**Mae'r pryfyn cerrig *Isogenus nubecula* yn bryfyn cerrig brodorol sydd Mewn Perygl Difrifol. Ar hyn o bryd, ni cheir cofnod ohono yn unman heblaw am rannau o Afon Dyfrdwy wrth iddi lifo trwy Sir Wrecsam, Cymru.**




Mae'r pryfyn cerrig hwn yn mesur rhwng 2 a 2.5cm o hyd.

Mae i'w gael yn nodweddiadol mewn ac o amgylch afonydd mawr caregog ar dir isel.

Fel pob creadur di-asgwrn-cefn, mae'r pryfyn cerrig hwn yn hanfodol yng ngwe fwyd ei gynefin, gan ddarparu bwyd i lawer o bysgod ac adar trwy gydol ei gylch bywyd.

Mae’r pryfyn yn sensitif iawn i lygredd, gan olygu ei fod yn gallu darparu gwybodaeth werthfawr am iechyd afonydd.

Yn gyffredinol, mae'r pryfyn cerrig hwn yn dywyll ei liw, yn aml gyda 'choler' felen y tu ôl i'r pen a streipen felen o’r blaen i’r cefn ar ei ben.

## Dilynwch y tri cham syml yma:

### Cam 1

Edrychwch ar arwynebau heulog (fel pyst ffensys) a llystyfiant ar hyd afonydd Cymru i weld a allwch chi weld pryfyn cerrig.

### Cam 2

Tynnwch lun o'r pryfyn, neu’r pryfed, gan roi sylw arbennig i'r adenydd a'r pen, oddi uchod. Gwnewch nodyn o'ch lleoliad, y tywydd a ble y gwelsoch chi'r pryfyn cerrig.

### Cam 3

Cyflwynwch eich cofnod trwy ein ffurflen ar-lein trwy sganio'r cod QR neu fynd i:

bit.ly/SearchForSYSCymru

Sganiwch Fi